



YSGOL BRYNREFAIL

GWERSYLL GLAN LLYN

Gohebydd : Lisa Hughes

Ar ddydd Gwener 21ain o Ionawr 2011 aeth grŵp o flwyddyn 7 o Ysgol Brynrefail i wersyll Glan Llyn a chael llawer iawn o hwyl yno. Ar y ffordd ddaru ni bigo grŵp o blant o Ysgol Porthmadog.

Ar ôl cyrraedd yno aethom i gael swper ac wedyn gwneud ychydig o weithgareddau yn y neuadd cyn mynd i'r gwely wedi blino yn racs. Y bore wedyn ddaru ni godi am hanner awr wedi saith cyn mynd i nôl

brecwast am wyth o'r gloch. Ar ôl brecwast roedd hi'n amser i wneud gweithgareddau rhaffau tan amser cinio.

Ar ôl cinio roedd hi'n amser I adeiladu rafft wrth ochr y llyn ac mi roedd hi'n oer iawn. Ar ôl adeiladu'r rafft mi ddaru ein grŵp fentro ar y llyn ac er i ni wlychu ddaru ni ddim suddo ! Cyn bron i ni gael amser i sychu a chynhesu roedd yn rhaid cerdded i chwilio am rifau a cherdded trwy'r mwd i gyd.

I orffen y gweithgareddau am y diwrnod rhaid oedd mynd yn ôl ar y llyn mewn canŵ. Roedd yn rhaid i mi roi fy mhen dan y dŵr ac roedd yn oer iawn. Erbyn y diwedd yr oedd fy mhen a fy mhen ôl yn socian !!!



Erbyn hyn yr oeddwn yn llwgu ac yn barod am swper ac ar ôl swper cwis cyn diweddu'r dydd gyda disgo. I'r gwely a hithau'n un-arddeg o'r gloch ac yn syth i gysgu.

Codi am hanner awr wedi saith y bore wedyn ac ar ôl brecwast sydyn amser nofio yn y pwll nofio a gwneud gweithgareddau grwpiau yn y dŵr.

Wedi'r nofio roedd hi'n amser am y wal dringo a llu o blant yn ymgeisio cyrraedd y top.

Pacio cyn cinio ar gyfer y siwrne adref, ffarwelio a dechrau am y siwrne hir yn ôl i Frynrefail. Er i mi fwynhau pob munud yr oeddwn yn falch o gysgu' r noson yn fy ngwely fy hun...

